

## Polisi Llythrennedd Ysgol Penweddig - Cyfnod Allweddol 3

### Datganiad cenhadaeth:

Mae Ysgol Penweddig yn ymroddedig i hybu, codi a dathlu safonau llythrennedd pob disgybl yn ein hysgol. Yr ydym yn anelu at gefnogi'n dysgwyr ar eu taith wrth iddynt lwyddo i feistrolï cyfoeth o sgiliau llythrennedd y gallant eu defnyddio'n annibynnol ym mhob maes o'r cwricwlwm, i gyflawni'u potensial fel cyfathrebwyr hyderus a huawdl, yn gwbl barod i gwrdd â gofynion addysg uwchradd, addysg bellach, byd gwaith a bywyd fel oedolion.

### Rhesymeg:

Y mae Ysgol Penweddig yn ymroddedig i hybu a darparu llythrennedd ar draws y cwricwlwm cyfan, gan rannu'r nod bod pob dysgwr yn cael mynediad i'r cwricwlwm, ac y byddwn drwy hynny, yn codi safonau llythrennedd yn ein hysgol. Cydnabyddwn:

- fod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn statudol ac yr ydym wedi ymrwmo i'r egwyddorion a'r nodau a amlinellir yn y ddogfen, gan ddeall mai dyma beth fydd yn gyrru'r cwricwlwm;
- fod llythrennedd yn hanfodol i bob maes dysgu, gan ei fod yn allwedd i'r cwricwlwm ehangach;
- y dylai dysgwyr arfogi eu hunain gyda sgiliau llythrennedd er mwyn gwireddu'r potensial sydd ynddynt ac agor drws ar gyfleoedd eang sydd ar gael iddynt;
- fod angen i ni fanteisio i'r eithaf ar ddatblygu sgiliau ac arbenigedd mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm er mwyn cefnogi datblygiad y tair elfen hon o lythrennedd mewn modd trefnus a chyson;
- 'fod pob athro yn athro llythrennedd' a bod pob un ohonynt yn gyfrifol am hybu datblygiad mewn llythrennedd – trwy gynllunio, cyflwyno ac asesu;
- y dylai'r daith llythrennedd drwy'n hysgol ni ennyn diddordeb ein dysgwyr, codi eu hunanhyder a'u hunan-barch, a digwydd mewn awyrgylch lle ceir mwynhad a her.
- ei bod yn hanfodol i'r ysgol gyfan ysgwyddo'r cyfrifoldeb o hyrwyddo llythrennedd os am ysbrydoli, anelu'n uchel a sicrhau llwyddiant, gydag athrawon, cynorthwywyr dysgu, uwch reolwyr, llywodraethwyr, rhieni, disgyblion ac aelodau eraill o staff yr ysgol, (e.e. Ffreutur, Llyfrgell, Canolfan Chwaraeon) yn cyfrannu at ein nod cyffredin;
- y bydd codi safonau llythrennedd disgyblion yn gwella eu cyflawniad ac yn hollbwysig i oresgyn anfantais cymdeithasol ac economaidd.

### Llythrennedd

"Ystyr llythrennedd yw defnyddio sgiliau iaith mewn gweithgareddau bob dydd ... Mae llythrennedd yn disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Nid yw llythrennedd wedi'i gyfyngu i fecaneg gallu dadgodio'r geiriau ar dUDRhlen neu ysgrifennu brawddeg sy'n ramadegol gywir, er bod y rhain yn sgiliau hanfodol. Mae'n ymwneud â'r sgiliau y mae eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig ac iaith lafar, dehongli'r hyn a gafodd ei ysgrifennu neu ei ddweud, a thynnu casgliadau o'r dystiolaeth sydd o'n cwmpas ... Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddatblygu darllen, ysgrifennu ac iaith lafar ar draws pob maes pwnc."

(*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013. t. 16)

## **Nodau**

Nodau'r polisi hwn yw:

- cefnogi dysgwyr ym mhob pwnc drwy gynorthwyo athrawon i fod yn eglur yn y ffyrdd y bydd eu gwaith gyda disgyblion yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau llythrennedd myfyrwyr;
- cyfoethogi profiadau dysgu myfyrwyr drwy gwricwlwm eang lle mae gwell sgiliau llythrennedd yn hyrwyddo ac yn cyfrannu at gyflawniad ac annibyniaeth;
- sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr dysgu ar draws y cwricwlwm yn datblygu hyder a chymhwysedd wrth ddefnyddio, hyrwyddo a dathlu sgiliau llythrennedd tra'n addysgu'u pynciau'n effeithiol;
- codi safonau ar draws yr ysgol drwy ddatblygu dealltwriaeth gytûn rhwng yr holl staff o'r manteision o gyfrannu at ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr drwy holl bynciau'r cwricwlwm;
- codi safonau ar draws yr ysgol drwy alluogi pob dysgwr i gael cyfleoedd effeithiol a mwynhad wrth feithrin yr iaith lafar ac ysgrifenedig;
- cyflymu cynnydd dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), i godi hyder, hunan-barch a chyflawniad;
- cyflymu cynnydd disgyblion SIY/Cymraeg Ail Iaith, i godi hyder a chyflawniad;
- codi disgwyliadau pob disgybl (gan gynnwys ADY a MAT) o'u cyflawniad personol, trwy lefel briodol o her a gosod targedau, a thrwy hynny, godi safonau;
- clustnodi'r dysgwyr sydd angen cymorth gyda llythrennedd a darparu ymyrraeth effeithiol ac amserol iddynt;
- adnabod dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT) a darparu heriau ychwanegol iddynt;
- hybu datblygiad llythrennedd bechgyn a'r dysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim er mwyn mynd i'r afael â nodau strategol yr ysgol;
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o safonau cyflawniad ac asesiad y myfyrwyr mewn siarad a gwranddo, darllen ac ysgrifennu, ac adnabod unrhyw gryfderau a gwendidau, trwy gofnodi a thracio;
- hybu hyder a hunan-barch dysgwyr drwy sicrhau eu bod yn deall y gwerth a osodir ar eu gwaith llafar ac ysgrifenedig;
- cymell ac ysbrydoli dysgwyr i anelu'n uwch.

### **Ar draws yr ysgol fe wnawn y canlynol:**

- darparu cysondeb ymhob cyfnod allweddol ar draws yr ysgol drwy weithredu'r un strategaethau, megis strategaethau darllen a sgerbydau Sue Palmer, i hybu ysgrifennu anllenyddol (6 math o ysgrifennu ffeithiol); VCOP
- defnyddio cynllun marcio cyffredin i sicrhau cysondeb, a sicrhau marcio i'r un safon;
- atgoffa dysgwyr a'u hannog yn gadarnhaol i ddefnyddio sgiliau a ddysgasant mewn un pwnc mewn rhai eraill;
- addysgu'r sgiliau llythrennedd sy'n gweddu orau i'r athro ac yn fwyaf perthnasol i'r pwnc, drwy gydol taith ddysgu'r myfyriwr;
- atgyfnerthu dysgu drwy ddefnyddio'r un derminoleg;
- mynd ati'n weithredol i annog a hybu mwynhad mewn darllen a'i bwysigrwydd; hyrwyddir y llyfrgell a'i chasgliad i gefnogi darllen er mwyn plaser.

- modelu sgiliau llythrennedd effeithiol drwy'r ffordd y byddwn ni'n cyfathrebu â dysgwyr;
- ymgeisio'n barhaus i wella'r ffyrdd y byddwn yn addysgu llythrennedd, gan ddefnyddio sgiliau o fewn yr ysgol ac o ffynonellau eraill er mwyn gwella sgiliau llythrennedd dysgwyr;
- mabwysiadu strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) i feithrin dysgwyr annibynnol, gan roi sylw arbennig i ddogfen Llywodraeth Cymru (11/13) ar gysylltiadau rhwng Asesu ar gyfer Dysgu a'r Fframwaith. Caiff gwaith ei gloriannu yn erbyn meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt, a bydd disgyblion yn golygu ac yn aildrafftio gwaith i'w wella yn rheolaidd.

### **Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

#### **Pennaeth:**

- sicrhau ymroddiad yr holl staff i ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm;
- ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynllun gwella/datblygu'r ysgol a monitro;
- bod yn rheolwr llinell i rôl y Cydlynnydd Llythrennedd;
- sicrhau bod targedau ar gyfer datblygu llythrennedd i'w gweld yn nhargedau rheoli perfformiad yr holl staff;
- annog staff i fynychu cyrsiau HMS a chysiau hyfforddiant eraill ar ddatblygu safonau llythrennedd (e.e. Rhaglen Gymorth Cenedlaethol; ALI Ceredigion).

#### **Uwch Dîm Rheoli - safonau a chwricwlwm:**

- adrodd nôl i'r UDRH a chynghori ar bob agwedd o Strategaeth Genedlaethol Cyfnod Allweddol 3;
- arwain y strategaeth ar gyfer data a gosod targedau;
- rheoli'r broses fonitro, a gwerthuso i ba raddau y mae'r fframwaith Llythrennedd wedi'i wreiddio o fewn yr ysgol gyfan, yn enwedig o safbwynt ansawdd addysgu;
- cynhyrchu adroddiad ar safonau i'r llywodraethwyr;
- sicrhau bod materion yn ymwneud â llythrennedd ar agenda cyfarfodydd staff;
- cefnogi gweithredoedd ar ddyddiau cau sy'n canolbwyntio ar lythrennedd;
- cyfathrebu gydag ysgolion cynradd wrth glustnodi dysgwyr ag anghenion llythrennedd penodol, a sicrhau cynllunio pwrpasol ar eu cyfer yn yr ysgol uwchradd.

#### **Cydlynnydd Llythrennedd:**

- rheoli'r gyllideb Llythrennedd;
- cydlynu ac adrodd ar y broses archwilio/awdit llythrennedd;
- sefydlu ac arwain Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDP) sy'n seiliedig ar lythrennedd;
- cydlynu gwaith rhyngadrannol mewn llythrennedd, gan gynnwys cynllunio tasgau cyfoethog;
- creu a ffurfioli'r cynllun gweithredu llythrennedd ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, mewn cynllun tair blynedd ar gyfer cyfnod Medi 2013 – Gorffennaf 2016;
- anelu at gyflwyno elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol i flynyddoedd 7, 8 a 9, drwy gynllun dysgu sy'n ymgorffori pob gweithgaredd o fewn y fframwaith;

- datblygu cynllun dysgu llythrennedd ar gyfer pob Blwyddyn yn CA3, er mwyn cychwyn addysgu'r sgiliau llythrennedd cyfatebol o'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, er mwyn gwreiddio'r sgiliau trwy atgyfnerthu'r strategaethau, ac er mwyn sicrhau cynnydd pob disgybl yn y sgiliau hyn;
- cefnogi staff wrth weithredu'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, gan adeiladu camau ar gyfer pob adran er mwyn hyrwyddo datblygiad llythrennedd;
- cynghori'r Cydlynnydd ADY/Cydlynnydd ADY ar hyfforddiant llythrennedd i Gynorthwywyr Dysgu;
- cyfathrebu â'r Cydlynnydd ADY/Cydlynnydd ADY wrth glustnodi'r dysgwyr sydd angen ymyrraeth – y rhai sy'n cyrraedd sgôr safonedig llai na 95 mewn darllen – a ffurfioli prosesau gosod targedau, olrhain cynnydd a nodau ar gyfer diwedd yr ymyrraeth;
- cyfathrebu gyda Arweinyddion Cynnydd ac Arweinyddion pwnc
- cyfathrebu â'r Cydlynnydd MAT am herio sgiliau llythrennedd dysgwyr MAT;
- sicrhau bod safonau llythrennedd yn cael eu monitro'n effeithiol, e.e. samplu gwaith disgyblion, trywyddau dysgu, arsylwi gwersi a rhannu arfer dda;
- mynd ati'n gadarnhaol ac yn weithredol i annog pob aelod o gymuned yr ysgol i gymryd rhan yn y prosesau gwella a hybu sgiliau llythrennedd, gan gynnwys gweithgareddau ysgol gyfan a gwersi sgiliau llythrennedd;
- sicrhau amgylchedd cyfoethog a deinamig o safbwynt llythrennedd, gyda ffocws gwledol amlwg i llythrennedd;
- cynorthwyo gyda'r prosesau o gydlynu asesu cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd, ac adrodd arno wedyn i rieni;
- hwyluso paratodau ar gyfer y Profion Darllen Cenedlaethol i ddysgwyr.
- cydlynu a chyfathrebu gyda'r Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu ynglŷn â rôl a darpariaeth y Llyfrgell wrth gefnogi a gweithredu'r polisi.

#### **Arweinydd Cynnydd BI 7-9 (a phontio CA2 i CA3):**

- derbyn, coladu a dosbarthu data trawsffiniol.
- derbyn data am fenthyciadau disgyblion o'r Llyfrgell bob hanner-tymor/tymor er mwyn adnabod disgyblion sydd ddim yn benthyg llyfrau, a gweithredu.

#### **Pob Arweinydd Cynnydd, mewn cydweithrediad â'r Cydlynnydd ADY/ADY :**

- meddu ar drosolwg o berfformiad trawsgwricwlaidd pob disgybl – gan adnabod cryfderau a gwendidau trwy dracio, creu grwpiau ymyrraeth a rhaglenni i dargedu tangyflawni, a monitro effaith hynny ar safonau;
- cyfathrebu gyda Phenaethiaid Adrannau i sicrhau setio addas ar gyfer pob disgybl.

#### **Athrawon:**

- rôl model: mae rôl yr athro, fel defnyddiwr iaith medrus yn hanfodol i feithrin agweddau cadarnhaol at llythrennedd drwy fodelu llythrennedd effeithiol i ddysgwyr, bob amser;
- hwyluso: darparu amgylchedd cefnogol a chyffrous, gan drefnu gweithgareddau pwrpasol a galluogi plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd;

- ‘agor drysau’: darparu amrywiaeth o adnoddau a chyfleoedd ar gyfer ystod eang o weithgareddau cytbwys i hybu datblygiad sgiliau mewn siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu, gan gynnwys creu arddangosfeydd amlwg sy’n cyfeirio dysgwyr at dasgau llythrennedd sy’n codi o’u pynciau;
- craffu, arsylwi a chofnodi datblygiad sgiliau mewn llythrennedd ac oedrannau/sgôriau darllen dysgwyr;
- asesu: gwerthuso ac asesu datblygiad sgiliau mewn llythrennedd;
- dathlu gwaith llwyddiannus disgyblion mewn llythrennedd a rhannu arfer dda;
- defnyddio gweithgareddau wythnosol/pythefnosol â ffocws ar lythrennedd i hyrwyddo llythrennedd a chyfeirio’r dysgu;
- mynychu cyrsiau HMS a sesiynau hyfforddi eraill ar wella safonau llythrennedd (e.e. Rhaglen Gymorth Cenedlaethol; ALI Ceredigion).

#### **Rôl yr Adrannau Cymraeg a Saesneg:**

- defnyddio’u gwybodaeth arbenigol i gefnogi’r holl staff addysgu wrth iddynt gwrdd â gofynion y polisi llythrennedd hwn a’r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol;
- defnyddio’u harbenigedd yn y maes hwn i gefnogi prosesau hyrwyddo a datblygu llythrennedd drwy’r ysgol gyfan;
- chwarae rhan allweddol o safbwynt pennu blaenoriaethau llythrennedd yr ysgol, targedau, amcanion a chynllun gweithredu, e.e. arweinydd pwnc y Gymraeg a’r Saesneg i fod yn aelodau o’r CDP ar lythrennedd, a chynorthwyo wrth bennu trywyddau ymchwilio ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd;
- hwyluso paratodau ar gyfer y Profion Darllen Cenedlaethol i’r dysgwyr;
- rhannu enghreifftiau o fframweithiau ysgrifennu sy’n adlewyrchu manylebau TGAU Cymraeg (Iaith) a Saesneg (Iaith), i sicrhau cysondeb ar gyfer pob pwnc.

#### **Rôl Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu yr Ysgol:**

- darparu sesiwn ymdrwytho i ddisgyblion Blwyddyn 7 – yn pwysleisio rheolau a chyfleoedd a geir o ddefnyddio Llyfrgell yr Ysgol;
- cynnal ymchwiliadau/holiaduron er mwyn darparu adnoddau sy’n diwallu anghenion a diddordebau disgyblion (gan gynnwys adnoddau TGCh y Llyfrgell), a defnyddio’r data wrth lunio a diweddarau Polisi Datblygu Casgliad y Llyfrgell;
- gweithredu system fenthyca effeithiol;
- gweithredu a hyrwyddo catalog Llyfrgell effeithiol sy’n hybu llythrennedd, llythrennedd gwybodaeth a dysgu annibynnol.
- monitro darllen disgyblion er mwyn hyrwyddo prosesau darllen a chyfeirio’r gweinyddu;
- arddangos enghreifftiau da o waith disgyblion a phosteri sy’n hybu llythrennedd a llythrennedd gwybodaeth;

- cywain eitemau o newyddion yr ysgol ar gyfer cylchgrawn yr ysgol/gwefan yr ysgol/papur newydd lleol;
- trefnu gweithgareddau cyfoethog o safbwynt llythrennedd ar gyfer ysgol gyfan, e.e. awdur/bardd ar daith; sesiynau ysgrifennu creadigol; fforwm ar gyfer trafod llyfrau (disgyblion ac athrawon); prosiect darllen ar gyfer diwrnodau pontio (CA2); Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol; Diwrnod y Llyfr; Gwersyll Llythrennedd (*Literacy Bootcamp*);
- cydweithio gydag adrannau i'w hannog i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y Llyfrgell ar gyfer eu gweithgareddau pwnc benodol ac arddangos enghreifftiau da o waith disgyblion a phosteri sy'n hybu llythrennedd a llythrennedd gwybodaeth.

#### **Llywodraethwr Llythrennedd:**

- cymryd diddordeb arbennig mewn materion yn ymwneud â llythrennedd, a helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n flaenoriaeth ar agenda'r ysgol;
- darparu dolen gyswllt rhwng llywodraethwyr a staff ar faterion yn ymwneud â llythrennedd, gan adrodd i'r corff llywodraethu pan fo'n briodol;
- cwrdd â'r cydlynnydd llythrennedd yn rheolaidd;
- bod yn ymwybodol o dargedau a chyrhaeddiad yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- bod yn ymwybodol o ddulliau tracio cynnydd disgyblion;
- defnyddio ymweliadau tymhorol i weld gwersi llythrennedd yn yr ystafell ddosbarth;
- holi am yr adnoddau a ddosrennir i lythrennedd o gyllideb yr ysgol;
- siarad â'r Pennaeth am faterion yn ymwneud â llythrennedd yn yr ysgol;
- ymwneud â'r broses o hysbysu rhieni, a'u cynnwys hwy ym mhrosesau dysgu a datblygu llythrennedd eu plant.

#### **Llywodraethwr Llyfrgell:**

#### **Rhieni:**

Yr ydym yn cydnabod bod rhieni a gwarcheidwaid yr ysgol hon yn chwarae rhan ganolog trwy gefnogi eu plant wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau llythrennedd. Gall rhieni hyrwyddo sgiliau llythrennedd yn y cartref drwy amrywiaeth o ffyrdd:

- drwy annog darllen er mwyn pleser, trafod y darllen, ac annog defnydd o Lyfrgell yr ysgol a llyfrgelloedd lleol;
- mynychu cyfarfodydd i gasglu gwybodaeth am weithdrefnau ac arferion ymyrraeth i'r dysgwyr sydd angen cefnogaeth mwy unigol i gyrraedd eu potensial yn yr ysgol;
- hysbysu'r Cydlynnydd ADY/Cydlynnydd ADY neu'r Cydlynnydd Llythrennedd am unrhyw bryderon sydd ganddynt am anghenion llythrennedd eu plant;
- cynorthwyo'u plant gyda thasgau gwaith cartref os oes angen, a gweithio gyda'r dysgwyr i weithredu ar gyngor athrawon ar sut i wella.

- cynorthwyo’u plant gyda gwaith annibynnol drwy ddefnyddio Hwb+ a chatalog Llyfrgell yr ysgol.

### **Llythrennedd a Dysgu yn Ysgol Penweddig**

Bydd athrawon yn sicrhau bod datblygiad Llythrennedd yn ganolog i brofiad plentyn yn yr ysgol, gan wneud yn siŵr bod Dogfennau’r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a’r Saesneg, yn ogystal â’r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, yn dylanwadu ar y broses gynllunio. Bydd athrawon yn ymrwymo i weithredu’r Cwricwlwm Diwygiedig pan gaiff ei gyflwyno i ysgolion.

Ar draws y cwricwlwm bydd pob pwnc yn hyrwyddo datblygiad y tri maes canlynol:

- Llafaredd ar draws y cwricwlwm
- Darllen ar draws y cwricwlwm
- Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

#### **Llinyn 1 – Llafaredd ar draws y cwricwlwm**

Y mae llafaredd yn cynnwys siarad, gwrando, cydweithio a thrafod.

Dylai pob dysgwr gael y cyfle i wneud y canlynol:

- cyfleu syniadau a gwybodaeth yn eglur, i ystod eang o gynulleidfaedd ac amrywiaeth o sefyllfaedd;
- gwrando ar safbwyntiau a syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt;
- cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau;
- trafod safbwyntiau/syniadau pobl eraill i gyrraedd cytundeb.

#### **Llinyn 2 – Darllen ar draws y cwricwlwm**

Y mae darllen yn cynnwys dod o hyd i wybodaeth, ei dethol a’i defnyddio drwy amrywiaeth o strategaethau darllen a’r gallu i ymateb i’r hyn a ddarllenwyd drwy sgiliau deall, ymateb a dadansoddi.

Dylai pob dysgwr gael y cyfle i wneud y canlynol:

- defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen priodol i wneud synnwyr o destunau;
- defnyddio strategaethau i wella rhuglder darllen;
- ymarfer sgiliau llythrennedd gwybodaeth drwy asesu ansawdd a dibynadwyedd testunau gan gynnwys rhai a gyflwynir drwy ddefnyddio TGCh e.e. gwefannau;
- caffael dealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd;
- nodi’r prif syniadau, digwyddiadau a manylion ategol (Pwynt + Tystiolaeth + Effaith);
- rhagfynegi, tynnu casgliadau, deall haenau o ystyr;
- gwneud cysylltiadau, o fewn/ar draws ystod o destunau/themâu;
- ymgymryd ag ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth lawn;
- trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol;
- gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn;
- cymharu ystod o safbwyntiau;
- gwerthuso cynnwys a dibynadwyedd testunau yn ogystal â’u cyflwyniad.

### **Llinyn 3 – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm**

Mae ysgrifennu yn cynnwys y gallu i drefnu syniadau a gwybodaeth drwy ddealltwriaeth o ystyr, pwrpas a strwythur. Y mae hefyd yn cynnwys y gallu i ysgrifennu'n gywir drwy ddealltwriaeth o gywair iaith, yr eirfa, y ramadeg, yr atalnodi a'r sillafu sy'n briodol eu defnyddio. (PISC – Pwrpas, Iaith, Strwythur, Cynulleidfa). Y mae hefyd yn cyfeirio at lawysgrifen ddarllenadwy.

Dylai pob dysgwr gael y cyfle i wneud y canlynol:

- cynllunio ac addasu arddulliau ysgrifennu i weddu i'r darllenwyr a'r pwrpas;
- dewis strwythur sy'n briodol i bwrpas y dasg a threfnu'r ysgrifennu yn ôl sgerbydau Sue Palmer ar y 6 thestun anllenyddol ar gyfer ysgrifennu ffeithiol ar draws y cwricwlwm (cyfarwyddiadau; dwyn i gof/adrodd yn ôl; esbonio; gwybodaeth/adroddiad anghronolegol; perswadio; trafodaeth);
- dethol, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth mewn modd priodol;
- ysgrifennu i sicrhau ymdriniaeth gyflawn â phwnc (Pwynt + Enghraifft + Effaith);
- llunio paragraffau i gael trefn ar dasgau;
- defnyddio ieithwedd sy'n briodol i ysgrifennu gan gynnwys defnydd cywir o amser a pherson y ferf;
- defnyddio agoriadau effeithiol ac amrywiol i frawddegau ac ystod eang o ymadroddion cysylltiol;
- defnyddio termau technegol priodol, a geirfa/ieithwedd briodol i'r cyd-destun pwnc benodol;
- defnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu'n gywir ac yn gyson;
- sicrhau defnydd cywir a chyson o 'ti/chi' yn y Gymraeg;
- sicrhau defnydd cywir o dreigladau sy'n codi'n naturiol o fewn y pwnc: Treigladau Meddal, Treigladau Trwynol a Threigladau Llaes;
- gwella diwyg yr ysgrifennu (drwy ddefnyddio llawysgrifen ddarllenadwy a hefyd trwy gynnwys y defnydd o TGCh)
- gwella ysgrifennu drwy adolygu annibynnol, golygu ac aiddrafftio.

### **Targedau ar gyfer asesiad**

- Sicrhau bod darpariaeth bynciol o fewn Cwricwlwm Cenedlaethol CA3 yn dilyn y canllawiau, a bod yr asesiad yn statudol, a bod yr adrodd i rieni yn cwrdd â'r gofynion.
- Sicrhau bod sgiliau llythrennedd, fel y'u hamlinellir yn y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, yn cael eu hamlygu yn y cynllunio ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig yn y Cynlluniau Dysgu, gan gadw cydbwysedd rhwng cynnwys pwnc benodol a gofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol.
- Defnyddio data o asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i gyfeirio'r dysgu a'r cynllunio, ac i adnabod disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth – diwedd CA2 yn ogystal ag asesiadau ffurfiannol a chrynodol ym mhob blwyddyn yn CA3.
- Defnyddio'r data o'r Profion Llythrennedd Cenedlaethol a phrofion yr NFER mewn darllen a sillafu i ddylanwadu ar ddysgu a chynllunio, ac i adnabod disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth.

- Defnyddio asesiadau o sgiliau llythrennedd i asesu anghenion dysgwyr a'u cynnydd.
- Rhoi anogaeth i gyrraedd targedau llythrennedd ac arddangos y targedau hynny o fewn yr ystafell ddosbarth a/neu yn llyfrau'r plant.
- Defnyddio Cynllun Marcio'r Ysgol i gyfeirio, datblygu a hyrwyddo llythrennedd dysgwyr.
- Sicrhau bod strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu yn cael eu gweithredu, gyda'r disgyblion yn datblygu fel dysgwyr annibynnol trwy ddulliau amrywiol, e.e. hunan asesu; marcio cyfoed yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt; ymateb i gyngor/sylwadau'r athro.
- Cydymffurfio â'r rheolau statudol i adrodd i rieni am asesiad ar sgiliau llythrennedd, gan gynnwys perfformiad yn y Profion Darllen Cenedlaethol.
- Defnyddio cist adnoddau llythrennedd, y Blwch Llythrennedd, a strategaethau â ffocws ar lythrennedd, i gyfeirio'r addysgu o safbwynt sgiliau llythrennedd.
- Derbyn data benthg o'r Llyfrgell i adnabod patrymau//tueddiadau benthg e.e. bechgyn/merched Bl.7, 8 & 9.

### **Rhaglenni ymyrraeth llythrennedd**

Er mwyn cefnogi'r darllenwyr sy'n llai hyderus a/neu sy'n llai galluog mewn llythrennedd, mae rhaglenni ymyrraeth ar waith ar hyn o bryd, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn yr ysgol hon. Targedir disgyblion â sgôr safonedig is nag 85 mewn darllen gan yr Adran ADY, a darperir rhaglenni ymyrraeth o fewn y prif lif i'r rhai â sgôr safonedig rhwng 85 a 94 mewn darllen. Hefyd, ceir cynlluniau ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar roi cymorth i wella sillafu.

Adnabyddir disgyblion sydd â sgôr safonedig rhwng 85 a 94 mewn darllen a'u rhoi ar raglen ymyrraeth ffurfiol yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Cynhelir cyfnodau o awr, dair gwaith y pythefnos gan staff atodol i ddatblygu eu sgiliau darllen gan ddefnyddio cynllun 'Fresh Start' Rhydychen a Chyfras 'Sgiliau' Meinir Ebbsworth yn y Gymraeg. Mae'r cyfnodau yn para rhwng hanner tymor a thymor cyflawn. Gall dysgwyr gael eu galw yn ôl pe gwelir angen.

### **Llyfrgell yr Ysgol**

Trefnir sesiwn ymdrwytho i'r disgyblion gan y Llyfrgellydd, yn pwysleisio'r rheolau a'r cyfleoedd a geir o ddefnyddio Llyfrgell yr Ysgol. Cyflwynir elfennau o lythrennedd gwybodaeth drwy ddysgu sut i chwilio am adnoddau yng nghatalog y Llyfrgell. Bydd disgyblion yn cael eu hannog i dreulio amser tawel yn darllen adnoddau amfoddol yn y Llyfrgell. Byddant hefyd yn cael eu hannog i fenthyca llyfrau, ac i gyfrannu at y broses o ddewis adnoddau ac offer darllen, gan gynnwys defnyddio TGCh ar gyfer darllen ac ymchwilio.

Caiff adrannau eu hannog i ddefnyddio adnoddau'r Llyfrgell.

Bydd y Llyfrgell hefyd yn gweithredu fel llwyfan i rannu a dathlu gwaith disgyblion, yn ogystal â bod yn ardal gymunedol ar gyfer tasgau cyfoethog mewn llythrennedd, e.e. awdur/bardd teithiol; sesiynau ysgrifennu creadigol; fforwm ar gyfer trafod llyfrau

(disgyblion ac athrawon); prosiect darllen ar gyfer diwrnodau pontio (CA2); Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol; Diwrnod y Llyfr; Gwersyll Llythrennedd (*Literacy Bootcamp*). Bydd Llyfrgell yr Ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu pob disgybl.

Cynhelir Clwb Gwaith Cartref yn y Llyfrgell bob nos rhwng 3.30 a 5.00 (4.30 ar ddydd Gwener) gyda'r Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu er mwyn cynorthwyo gyda gwaith cartref/annibynnol a hybu sgiliau llythrennedd.

### **Amgylchedd Dysgu**

- Bydd hon yn ysgol gyfoethog a deinamig o safbwynt llythrennedd, gyda statws gweledol amlwg i lythrennedd.
- Gall adrannau gwahanol arddangos gwaith pwnc benodol gan amlygu'r sgiliau llythrennedd gwahanol a ddefnyddir ganddynt.
- Caiff enghreifftiau o ragoriaeth mewn llythrennedd eu harddangos yn fodelau i ddysgwyr eu hefelychu.

### **Ysgrifennwyd y polisi gan Elan Bolton:**

Dyddiad: Gorffennaf 2015

Dyddiad adolygu'r polisi:

Y sawl sy'n gyfrifol am adolygu:

Llofnod \_\_\_\_\_ (Pennaeth)

\_\_\_\_\_ (Cadeirydd y Llywodraethwyr)